**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Lesley,

Fel y gwyddoch, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amgylchedd (y Memorandwm atodol) wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor) i'w ystyried. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 4 Chwefror 2021.

Er mwyn llywio ystyriaeth y Pwyllgor o'r Memorandwm atodol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod.

**Cymal 107 ac Atodlen 16: Y defnydd o nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgarwch masnachol**

Mae'r Memorandwm Atodol yn amlinellu bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ond nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno.

1. Mae'r Memorandwm atodol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn "cefnogi'r safbwynt polisi a ddarperir gan y ddarpariaeth". A allwch chi nodi'ch rhesymau dros hyn?

2. I ba raddau yr ydych chi'n fodlon bod rhanddeiliaid Cymru wedi cael digon o gyfle i ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r polisi?

3. I ba raddau yr ydych chi'n fodlon bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu'n gywir buddiannau Cymru?

4. O wybod eich barn mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol, a allwch egluro a ydych wedi mynd ar drywydd, neu a ydych yn mynd ar drywydd, diwygiad(au):

- i roi i Weinidogion Cymru yr un pwerau â'r Ysgrifennydd Gwladol fel ag y maent yn ymwneud â Chymru (gan sicrhau o ganlyniad gyfranogiad y Senedd o ran craffu ar y pwerau hyn), neu

- i sicrhau cyfranogiad Gweinidogion Cymru yn y broses ar gyfer rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol Atodlen 16?

5. Os nad yw'n fwriad gennych fynd ar drywydd dim un o'r diwygiadau uchod, sut y byddwch yn sicrhau y bydd rheoliadau yn dyfodol a wneir o dan Atodlen 16 yn cyd-fynd â pholisi a buddiannau Cymru ac yn cynrychioli'r polisi a buddiannau hyn? Pa sicrwydd byddwch chi'n ei geisio gan Lywodraeth y DU yn hyn o beth?

Mae Atodlen 16 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau yn ymwneud â gorfodi, a all gynnwys rhoi swyddogaethau a phwerau i 'awdurdod gorfodi'.

6. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael â Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw 'awdurdod gorfodi' a phwy allai hyn fod? Beth yw canlyniad unrhyw drafodaethau o'r fath?

**Materion sydd heb eu datrys mewn perthynas â'r Bil Amgylchedd**

Yn eich llythyr, dyddiedig 5 Tachwedd 2020, sonnir am drafodaethau cynhyrchiol â Defra ar ddiwygiad arfaethedig i gryfhau'r ddyletswydd yng nghymal 26(4) (cymal 24(4) gynt) ar Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ('OEP') i ymgynghori â chyrff llywodraethu amgylcheddol datganoledig. Fe nodwn, fodd bynnag, nad ystyriwyd diwygiad i'r perwyl hwn yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

7. A allwch egluro a ydych wedi sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i gyflwyno gwelliant i gymal 26(4) yn ddiweddarach yn y broses ddiwygio? Os nad ydych, a allwch chi egluro pa sicrwydd a gawsoch gan Lywodraeth y DU y bydd cydweithredu rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a chorff llywodraethu amgylcheddol Cymru?

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb erbyn 14 Ionawr 2021 fan bellaf.

Yn gywir



Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.